DAVIES, JOHN (1799? - 1879), ' John Davies, Nercwys,' gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

Enw: John Davies
Ffugenw: John Davies, Nercwys
Dyddiad geni: 1799?
Dyddiad marw: 1879
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

hynod am ei ffraethineb a'i ddonioldeb. Y mae 'cofiant' iddo, gan George Jones (Wrecsam, 1907), diffygiol iawn mewn dyddiadau a manion felly. Gellid meddwl iddo gael ei fagu yn yr Wyddgrug (yn Nercwys yr oedd gwreiddiau ei deulu); derbyniwyd ef yn aelod yn yr Wyddgrug 'yn 16 oed' (G. Owen, *Methodistiaeth Sir Fflint*, 323), ac yn ôl ei gerdyn angladd yr oedd yn '79' pan fu farw yn 1879 (*Y Cylchgrawn*, 1879, 135), felly yn 1799 neu 1800 y ganwyd ef, ac nid yn 1808 fel y dywedir gan rai. Dechreuodd bregethu yn 1822 ac ordeiniwyd ef yn 1834; yr oedd yn bregethwr hynod iawn, a bu mynd mawr hefyd ar ei esboniad ar Lyfr y Diarhebion, 1869. Dylid nodi un ffaith a awgryma ei fod yn rhyddach ei olygiadau gwleidyddol na llawer o weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd cyn canol y 19eg ganrif - yr oedd ym mhlaid y mudiad yn 1841 i ddiddymu treth yr d (gweler *Cylchgrawn Rhyddid*, l Ionawr 1842). Bu farw 5 Mawrth 1879.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Enwyd y ffynonellau yng nghorff yr ysgrif

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733384

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu